| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **78 - Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**<br>*Gosodwyd yn Senedd y DU: 17 Ionawr 2019* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh. |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 21/01/2019 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh. |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 12 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Ddim yn ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh. |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Ddim yn hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i gyfres o Reoliadau a Phenderfyniadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â mewnforio a chludo anifeiliaid byw, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, plasm cenhedlu a symud anifeiliaid anwes, ceffylau ac anifeiliaid syrcas.
Pwrpas y Rheoliadau yw mynd i'r afael â methiannau deddfwriaeth ddomestig a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r Rheoliadau yn diwygio cyfeiriadau diangen at ddeddfau a systemau'r UE a fydd yn amherthnasol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ac maent yn dirymu deddfau diangen yr UE ac yn

trosglwyddo cyfres o swyddogaethau o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r "awdurdod priodol" yn y DU, sy'n golygu, mewn perthynas â Chymru, Weinidogion Cymru neu (gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru) yr Ysgrifennydd Gwladol.
Mae'r Rheoliadau'n gymwys ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ac yn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â mewnforio, symud a masnachu anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer awdurdodi busnesau, dogfennau teithio anifeiliaid anwes, tystysgrifau iechyd anifeiliaid ac iechyd cyhoeddus ac amodau cludiant. Mae'r Rheoliadau hefyd yn galluogi awdurdodau yn y DU i gymryd camau mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio neu achosion o glefydau.
Dim ond os bydd senario 'dim bargen' y bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn dod i rym.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 21 Ionawr 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

1. Mae'r Rheoliadau pwnc, yn Atodlen 2, yn dirymu "Commission Decision 2006/65/EC on certain protection measures in relation to intra-Community trade in poultry intended for restocking of wild game supplies". Mae'n ymddangos bod cyfeirnod Penderfyniad y Comisiwn fel y'i nodir yn cynnwys gwall, ac y dylai ddarllen "2006/6**0**5 / EC ".
   Mae'r datganiad gan Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at y cyfeirnod anghywir yn ei restr o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n cael ei dirymu, ond mae hefyd yn cynnwys cyfeiriad dyblyg at Benderfyniad y Comisiwn hwn (gyda'r cyfeirnod cywir) yn yr adran o'r enw "Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys".
2. Mae'r datganiad yn cadarnhau bod y diwygiadau yn y Rheoliadau hyn i gael eu gwneud "gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â deddfwriaeth y DU neu Brydain Fawr y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â hwy ac mae testun y ddeddfwriaeth, sef symud anifeiliaid a mesurau iechyd ataliol sy'n ymwneud â symud anifeiliaid mewn cysylltiad â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol."
   Fodd bynnag, nid yw'r datganiad yn nodi'r effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru neu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30C.3(ii). Mae cynghorwyr cyfreithiol yn argymell y dylid ceisio eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 21 Ionawer 2019 ba effaith y gall y Rheoliadau ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.